## Ffurflen gais i gael mynediad at ddata y mae Estyn yn ei gadw amdanoch chi

Gallwch wneud cais hawl mynediad trwy ddefnyddio’r ffurflen isod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu’r holl wybodaeth sy’n cael ei henwi yn y ffurflen fel y gallwn brosesu’ch cais.

Os nad ydych yn fodlon â’n penderfyniad, gallwch ofyn i ni ei adolygu. Dylid cyfeirio’ch cais am adolygiad at y Rheolwr Adborth a Chwynion, yn esbonio pam y dylid rhoi’r wybodaeth i chi, yn eich barn chi. Dylech wneud eich cais am adolygiad o fewn mis o’r dyddiad ar ein hymateb i’ch cais.

Hefyd, gallwch:

- wneud cais i’r llys yn honni methiant i gydymffurfio â’r darpariaethau hawl mynediad yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016
- ysgrifennu at y Comisiynydd Gwybodaeth

Gallai’r Comisiynydd Gwybodaeth:

- asesu p’un ai a ydym wedi cydymffurfio â Rheoliad 2016 ai peidio
- cyhoeddi camau gorfodi os yw’n ymddangos ein bod wedi mynd yn groes i un o’r egwyddorion diogelu data
- argymell eich bod yn gwneud cais i’r llys yn honni methiant i gydymffurfio â darpariaeth hawl mynediad yn Rheoliad 2016

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Ffurflen gais hawl mynediad i'w llenwi gan bobl heblaw am aelodau staff

### Adran 1 – Amdanoch chi

**Defnyddiwch briflythrennau**

| | |
|---|---|
| **Teitl** | |
| **Cyfenw/enw'r teulu** | |
| **Enw(au) cyntaf** | |
| **Enw(au) blaenorol** | |

| | |
|---|---|
| **E-bost:** | |
| **Rhif ffôn yn ystod y dydd:** | |

**Adran 2 – Gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar ein systemau**

Rhowch y math o wybodaeth bersonol rydych chi eisiau ei chael drwy dicio neu lenwi'r blychau isod:

| | |
|---|---|
| **Cofnod y gweithiwr** | ☐ |
| **Manylion y bobl sy'n gweithio dan gontract, cytundeb partneriaeth neu drefniant tebyg arall** | ☐ |
| **Manylion y wybodaeth bersonol a gafwyd yn ystod arolygiadau** | ☐ |
| **Manylion gwybodaeth bersonol a gafwyd yn ystod gwaith arolwg neu ymchwil arall** | ☐ |
| **Data personol a gasglwyd fel rhan o'n gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau** | ☐ |
| **Arall (rhowch esboniad)** | ☐ |

| |
|---|
| |

Nawr, rhowch fanylion pellach i ni am y data neu'r wybodaeth bersonol rydych chi'n gwneud cais amdani:

| |
|---|
| **Enw'r man lle cynhaliwyd yr arolygiad/arolwg/cwyn:** |
| |
| **Dyddiad yr arolygiad/arolwg/cwyn:** |
| |
| **Manylion y contract neu gytundeb arall:** |
| |
| **Disgrifiad o'r cofnod rydych chi'n gwneud cais am gopi ohono:** |
| |

**SWYDDOGOL-PERSONOL (wedi'i gwblhau)**

## Adran 3 – Tystiolaeth Adnabod

I helpu cadarnhau pwy ydych chi, mae'n rhaid i chi ddarparu o leiaf ddau fath o ddogfen swyddogol sy'n dangos eich enw, eich cyfeiriad presennol, eich dyddiad geni a'ch llofnod.

| **Mathau derbyniol o dystiolaeth adnabod** | **Dangoswch isod pa fathau o dystiolaeth adnabod rydych chi wedi'u hanfon** |
|---|---|
| Naill ai drwydded yrru neu basbort* | |
| Cerdyn meddygol | |
| Tystysgrif geni/mabwysiadu | |
| Bil cyfleustod diweddar | |

*mae eich trwydded yrru neu'ch pasbort yn hanfodol ar gyfer cadarnhau eich dyddiad geni a'ch llofnod. Mae llungopïau yn dderbyniol.

**Bydd methu darparu tystiolaeth adnabod yn achosi oedi i'ch cais.**

**Datganiad** (i'w lofnodi gan yr ymgeisydd)
Mae'r wybodaeth yr wyf wedi'i darparu yn y cais hwn yn gywir a fi yw'r sawl y mae'n perthyn iddo.

Llofnodwyd gan………………………………………………………………………..

Dyddiad………………………………………………………………………………

Anfonwch y ffurflen hon at:

**CYFYNGEDIG**

**Y Swyddog Gwybodaeth – Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data**

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

ymholiadau@estyn.llyw.cymru

Argymhellwn anfon y ffurflen hon a'ch dogfennau gan ddefnyddio gwasanaeth sy'n cael ei olrhain. Byddwn yn dychwelyd eich dogfennau atoch mor gyflym â phosibl.

Gallai gopi o'r wybodaeth y gofynnoch amdani gael ei hanfon atoch ar wahân.

**SWYDDOGOL-PERSONOL (wedi'i gwblhau)**

## Mwy o wybodaeth

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn.  Gallwch gael cyngor annibynnol ar y Rheoliad a mynediad at wybodaeth gan:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

E-bost: casework@ico.org.uk